CYFRES A12

# amserbeibl

## Astudiaethau Beiblaidd – Safon 4

Cofiwch roi eich enw a'ch cyfeiriad yma.

Oedran Dyddiad geni

Enw

Cyfeiriad

Enw Arweinydd y Dosbarth

Astudiaethau Beiblaidd o'r Efengylau

Cofiwch mai un llythyren yw ch, dd, ff, ng, ll, ph, rh, th

DARLLENWCH
Mathew 1: 18-25
Luc 1: 26-38

ADNOD ALLWEDDOL
Mathew 1: 21

## Astudiaeth 1 Geni'r Gwaredwr - Negeseuon yr Angel

**Awgrymiadau am Adnodau Eraill i'w Darllen**
1 Timotheus 1: 15 Hebreaid 1: 1-3 1 Ioan 4: 14

Heddiw, mae newyddion am ddigwyddiadau pwysig yn cael ei drosglwyddo o gwmpas y byd yn eithriadol o gyflym, diolch i'n systemau cyfathrebu modern. Ni ddylem synnu bod Duw yn cyhoeddi bod y Gwaredwr yn mynd i gael ei eni, hyd yn oed cyn i hynny ddigwydd. Fe wnaeth hynny mewn ffordd arbennig iawn!

**C** **Pwy yw'r ddau berson a enwir yn y Darlleniadau a gafodd neges gan Dduw?** 2

1 2

**C** **Beth oedd y berthynas rhwng y ddau hyn ar y pryd?** 1

**C** **Pan glywodd fod ei ddyweddi yn disgwyl babi, beth wnaeth Joseff ystyried ei wneud?** 2

**C** **Beth ddywedodd yr angel wrtho pan oedd yn meddwl gwneud hynny?** 2

Roedd Duw yn dysgu Joseff fod y Gwaredwr a oedd yn mynd i gael ei eni yn fwy o lawer na rhywun cyffredin. Felly byddai'n dod i'r byd mewn ffordd arbennig iawn. 1

**C** **Pa enw oedd Joseff i fod i'w roi i'r Baban?**

**C** **O gofio bod yr enw'n golygu 'GWAREDWR', ysgrifennwch frawddeg i esbonio pam yr oedd hwn yn enw addas iawn Iddo.**

2

Yn y digwyddiadau hyn i gyd, roedd addewidion Duw, a roddwyd i un o'i broffwydi gannoedd o flynyddoedd cyn hynny, yn dod yn wir.

**C** **Ysgrifennwch beth a ddywedodd y proffwyd, o adnod 23.**

2



Pan ymddangosodd yr angel i Mair (Luc 1: 26-38), roedd ganddo lawer o bethau rhyfeddol i'w dweud wrthi.

# GRID GEIRIAU

**C** **Defnyddiwch y cliwiau hyn i lenwi'r atebion yng ngholofnau 1 – 7 (Darllenwch Luc 1: 26-38).**




1. Enw'r ardal lle oedd Mair yn byw.
2. Y dref (neu'r ddinas) lle oedd Mair yn byw.
3 a 4. Dywedodd yr angel wrth Mair "ac wele, byddi'n _ _ _ __ _ _ _ _ yn dy _ _ _ _ __".
5. Yr enw yr oedd Mair i fod i'w roi ar ei Phlentyn.
6. Dywedodd yr angel na fydd diwedd ar _ _ _ _ _ _ _ Iesu.
7. Enw perthynas Mair.

8

**C** **Rhowch gylch yn y Grid Geiriau o gwmpas enw'r angel a ymddangosodd i Mair.**

Mae neges yr angel yn bwysig i ni heddiw oherwydd mae angen i bob un ohonom gael ein hachub oddi wrth ein pechodau (Darllenwch yr Adnod Allweddol). Oherwydd Ei gariad mawr tuag atom, mae Duw wedi rhoi Ei Fab i fod yn Waredwr i ni.

**Ydych chi wedi Ei dderbyn drosoch eich hunan, gan Ei groesawu i'ch calon a'ch bywyd?**

Enw _____

DARLLENWCH
Luc 2: 1-7

ADNOD ALLWEDDOL
Luc 2: 7

# Astudiaeth 2 Geni'r Gwaredwr – Gorchymyn yr Ymerawdwr

## Awgrymiadau am Adnodau Eraill i'w Darllen

Diarhebion 21: 1 Daniel 4: 34 a 35 Philipiaid 2: 5-7

Am lawer o flynyddoedd, roedd yr Ymerodraeth Rufeinig yn cael ei rheoli gan ymerawdwyr pwerus o'r enw 'Cesariaid'. Roedden nhw'n byw yn Rhufain, gannoedd o filltiroedd o'r wlad fach lle'r oedd yr Iddewon yn byw.

**C** **Ysgrifennwch enw'r Cesar a oedd mewn grym pan anwyd yr Arglwydd Iesu.** _____ **1**

Er mwyn casglu trethi oddi wrth ei ddeiliaid, roedd yn mynnu bod pawb yn cael eu cofrestru. Felly gwnaeth orchymyn.

**C** **Llanwch y llefydd gwag yn y gorchymyn dychmygol hwn.**




**4**

**1**

Er mwyn dilyn gorchymyn yr Ymerawdwr, roedd pobl yn gorfod mynd yn ôl i'r man lle cawsant eu geni. Mae'r Darlleniad yn sôn am DDAU o bobl a oedd yn gorfod mynd ar daith fel hyn.

**C** **Beth oedd eu henwau?**

1) _____

2) _____




**C** **Ar y map, nodwch:**

1. Y lle (2) a'r ardal (1) o ble y gwnaethon nhw deithio.

2. Y lle (4) a'r ardal (3) yr aethon nhw iddynt.

**2**

**C** **O ba un o frenhinoedd enwog yr Iddewon roedd Joseff yn gallu olrhain ei achau?** _____ **1**

Roedd Duw wedi gwneud addewidion rhyfeddol i'r brenin hwnnw.

**C** **Ysgrifennwch beth a ddywedodd Duw wrth y brenin hwn yn 2 Samuel 7: 16.** **2**

Bydd yr holl addewidion hyn yn dod yn wir yn y pen draw yn yr Arglwydd Iesu.

**C** **Meddyliwch am un rheswm pam y byddai'r daith (tua 70 milltir) yn anodd i Mair.** **1**

Mae'n rhaid i ni gofio bod rhywun mwy pwerus na Chesar y tu ôl i'r digwyddiadau hyn. Roedd Duw ei Hunan yn rheoli popeth, wrth i ddyfodiad Mab Duw i'r byd agosáu. Gannoedd o flynyddoedd cyn hynny, roedd Duw wedi cyhoeddi, trwy Ei broffwyd Micha, y byddai'r Gwaredwr yn cael ei eni ym Methlehem.



**C** **Chwiliwch am Micha 5: 2 ac ysgrifennu'r adnod.** **3**

Ymhell i ffwrdd, yn Rhufain, doedd Cesar Awgwstus ddim yn deall bod Duw yn defnyddio'i orchymyn i sicrhau bod yr Arglwydd Iesu'n cael ei eni ym Methlehem, yn union fel roedd Duw wedi dweud. Yn ogystal â chael ei eni yn y lle iawn, cafodd y Gwaredwr ei eni ar yr amser iawn. Roedd Duw wedi trefnu digwyddiadau'r byd er mwyn sicrhau bod y Gwaredwr yn cael ei eni ar yr amser iawn!

**C** **Ysgrifennwch beth sydd gan Galatiaid 4: 4 i'w ddweud am hyn.** **2**

Mae'r Darlleniad o'r Beibl yn nodi'n syml ac yn glir beth a ddigwyddodd ym Methlehem.

**C** **Darllenwch adnodau 6 a 7 eto, ac yna ysgrifennwch yr Adnod Allweddol gan DANLINELLU y geiriau sy'n dangos pam y cafodd ei roi yn y preseb.** **3**

A dyna sut y digwyddodd y peth pwysig hwn. Daeth Mab Duw i lawr o'r Nefoedd, daeth yn ddyn fel ni a marw dros ein pechodau ni. Heddiw, mae'n abl ac yn barod i achub pawb sy'n ymddiried ynddo. Mae'n bwysig ein bod ni'n gofalu bod gennym ni 'le' Iddo.

Enw _____

DARLLENWCH
Luc 2: 8-20

ADNOD ALLWEDDOL
Luc 2: 11

# Astudiaeth 3 Geni'r Gwaredwr – Ymweliad y Bugeiliaid

## Awgrymiadau am Adnodau Eraill i'w Darllen

Ioan 5: 24 2 Corinthiaid 6: 2

Mae gennym achos i fod yn llawen bob tro y mae babi'n cael ei eni'n ddiogel. Mae'r newyddion yn lledaenu fel tân gwyllt, mae pobl yn galw draw i ddymuno'n dda i'r teulu a rhai ohonyn nhw'n dod ag anrheg i'r babi.

**C** **Yn ôl y Darlleniad o'r Beibl, pwy oedd y rhai cyntaf i alw i weld y Baban Iesu?** 2

**C** **Sut cawson nhw wybod Ei fod wedi cael Ei eni?** 1

**C** **Beth oedden nhw'n ei wneud pan glywson nhw Ei fod wedi Ei eni?**

**C** **Darllenwch yn ofalus eiriau'r angel a chwilio am y TRI THEITL a ddefnyddiodd ar gyfer Iesu. Ysgrifennwch nhw isod.** 1

1) 2) 3)

**C** **Dyma yw YSTYR y tri theitl ond maen nhw yn y drefn ANGHYWIR. Rhowch rif y teitl sy'n cyfateb i'r ystyr yn y blwch.** 1

Prif Lywodraethwr. ____
Un sy'n Achub pobl rhag eu pechodau. ____
Un sydd wedi'i Eneinio. ____

**C** **Rhoddodd yr angel DDAU 'gliw' i'r bugeiliaid i'w helpu i ddod o hyd i'r Baban. Beth oedden nhw?** 2

Wrth i'r angel orffen ei neges, daeth tyrfa o'r llu nefol i ymuno ag ef.

**C** **Ysgrifennwch beth oedd ganddynt i'w ddweud.** 2

Mae TAIR gwers bwysig i ni, heddiw, eu dysgu yn hanes ymweliad y bugeiliaid:-

**1. Pwysigrwydd CLYWED am y Gwaredwr.**
Tasen nhw ddim wedi clywed amdano, fydden nhw ddim wedi dod i'w weld!
Mae hynny'n bwysig i ni hefyd.

**C** **Darllenwch beth sydd gan Rhufeiniaid 10: 17 i'w ddweud am glywed Gair Duw (h.y. y Beibl). Ysgrifennwch yr adnod.** **2**

**2. Pwysigrwydd TALU SYLW i'r hyn yr ydym yn ei glywed.**
Fe wnaeth y bugeiliaid weithredu ar yr hyn a glywson nhw.

**C** **Ysgrifennwch o Luc 2: 15 beth a ddywedon nhw wrth ei gilydd ar ôl i'r angylion fynd.** **1**

Mae angen i ni, hefyd, dalu sylw i'r hyn y mae Duw'n ei ddweud wrthym. Awn ni byth i'r Nefoedd os clywn ni heb dalu sylw! **1**

**C** **Gorffennwch y cwestiwn hwn o Hebreaid 2: 3 "Pa fodd y dihangwn ni . . ."**

**3. Pwysigrwydd BRYSIO i wneud fel y mae Duw yn ei ddweud.** **1**

**C** **Pa adnod yn y Darlleniad o'r Beibl sy'n dweud na wnaeth y bugeiliaid wastraffu amser cyn mynd i Fethlehem?**

**Adnod**

Mae llawer o resymau pam na ddylem ni wastraffu amser cyn ymddiried yn yr Arglwydd Iesu. Rydyn ni'n gwybod pa mor fregus yw ein bywydau ar y ddaear ac rydym yn gwybod y bydd yr Arglwydd Iesu'n dod eto cyn hir. Gadewch i ni beidio â gwastraffu'r cyfle i ddod at Iesu a'i wneud Ef yn Arglwydd ac yn Waredwr i ni.

**C** **Ysgrifennwch beth a ddywedodd yr Arglwydd Iesu yn Luc 13: 24.**

 **1**

Enw _____

DARLLENWCH
Mathew 2: 1-23

ADNOD ALLWEDDOL
Mathew 2: 11

# Astudiaeth 4 Geni'r Gwaredwr – Anrhegion y Doethion

**Awgrymiadau am Adnodau Eraill i'w Darllen**
1 Chronicl 29: 9-17 Luc 21: 1-4 2

Ymhen ychydig, daeth pobl eraill i weld yr Arglwydd Iesu. Yn aml, caiff y rhain eu galw'n 'Ddoethion', 'Seryddion' neu 'Magi'. Roedd y rhain yn astudio'r sêr, gan ddilyn eu symudiadau ar draws yr awyr. Yn wahanol i'r bugeiliaid, roedden nhw wedi dod o bell.

**C** **Ysgrifennwch ar yr arwydd o ba gyfeiriad y daethon nhw ac i ba ddinas yr aethon nhw gyntaf.**



1

**C** **Beth oedd wedi eu harwain ar eu taith hir?**

2

Pan gyrhaeddon nhw'r ddinas, dyma nhw'n gofyn, "Ble mae'r hwn a anwyd yn Frenin yr Iddewon?" Fe wnaeth y brenin ymateb mewn ffordd bendant iawn.

1

**C** **Pwy oedd y brenin hwnnw?**

3

**C** **Sut wnaeth e ymateb?**



3

Er mwyn cael gwybod yr ateb i gwestiwn y Doethion, galwodd y brenin ar yr arbenigwyr yn Ysgrythurau'r Iddewon, sef yr hyn rydyn ni'n ei alw'n 'Hen Destament'.

2

**C** **Beth oedd yr ateb a roddon nhw i'r brenin?**

**C** **Ysgrifennwch yr adnod (o lyfr y proffwyd Micha) lle cawsant yr ateb.**

2

Ar ôl cael y wybodaeth, teithiodd y Seryddion chwe milltir arall i Fethlehem. Yno, daethant o hyd i'r plentyn gyda Mair a Joseff yn y tŷ. Fe wnaethon nhw Ei addoli a rhoi anrhegion gwerthfawr Iddo.

1

**C** **Pa anrhegion a roddon nhw Iddo?**

| 1 | 2 | 3 |
|---|---|---|

# GRID GEIRIAU

**Atebwch y cliwiau hyn i lenwi'r Grid Geiriau.**

T = "A thithau Bethlehem yng ngwlad Jwda, nid y lleiaf wyt ti o lawer ymysg _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ Jwda."
R = Beth oedd enw'r brenin?
Y = Pwy a ddaeth o'r dwyrain?
S = Beth oedden nhw wedi'i gweld yn codi.
O = Dywedodd Herod ei fod eisiau _ __ _ _ _ y plentyn.
R = Pwy oedd mam y plentyn?
A = Rhoddodd y seryddion _ _ __ _ _ _ _ _ i'r plentyn.
U = Cafodd y seryddion rybudd mewn _ _ _ _ __ _ _ _.




9

Trwy gyflwyno'u hanrhegion gwerthfawr i'r Arglwydd Iesu, roedd y Doethion neu'r Seryddion yn dangos cymaint roedden nhw'n ei werthfawrogi. Roedd Duw wedi dysgu iddyn nhw pa mor ARBENNIG oedd y Brenin newydd hwn ac roedden nhw'n gwybod ei fod yn haeddu eu trysorau gorau.

Dylai pawb ohonom ofyn: Pa mor werthfawr yw Iesu i Mi? Ydw i'n ei werthfawrogi? A yw'n Arglwydd ac yn Waredwr i Mi?

**C** **Ar ôl i chi feddwl am y cwestiynau hyn, ysgrifennwch adnod Rhufeiniaid 12: 1.**

1

**cyfanswm**

Marciau
(i'w nodi gan yr arweinydd)

Cyfanswm

Cyfanswm Llawn

Cyhoeddwyd yn wreiddiol yn Saesneg gan: © Bible Educational Services. P.O. Box 42, Penarth, CF64 3YD.
Y gwersi ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim ar www.biblelinkit.com neu ffoniwch 01202 873500 am fwy o wybodaeth. Rhif elusen 1096157
Cyhoeddir y gwersi Cymraeg gan © 2008 Pwyllgor Amserbeibl Cymru. Addasiad Cymraeg gan Siân Roberts

**Cyfres lawn o wersi dros dair blynedd i rai rhwng 4-15 oed ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim o www.amserbeibl.org**
Am fanylion pellach neu i gyfrannu at y gwaith (rhoddion yn daladwy i 'Amserbeibl') cysylltwch ag:
Aled Davies, Cyngor Ysgolion Sul, Ael y Bryn, Chwilog, Pwllheli, Gwynedd LL53 6SH ☎ 01766 819120